



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys i: Adroddiad Cyflwr Plismona 2025-26 AHGTAEF.

Croesawaf Adroddiad Cyflwr Plismona 2025-26 Prif Arolygydd Heddluoedd Ei Fawrhydi (PAEF), sy'n asesiad o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd plismona yng Nghymru a Lloegr.

Rwy'n defnyddio gweithgarwch AHGTAEF i'm cefnogi i geisio sicrwydd amserol a pherthnasol gan Heddlu Dyfed-Powys ar feysydd gwasanaeth penodol drwy ddigwyddiadau amrywiol, gan gynnwys y Bwrdd Plismona, sef y fforwm lle rwy'n dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau plismona ledled ardal Dyfed-Powys. Dyma un o fy nghyfrifoldebau fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Hoffwn adleisio teyrnged PAEF i'r chwe swyddog a gollodd eu bywydau wrth gyflawni eu dyletswyddau yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad.

Rwy'n cefnogi safbwynt PAEF o ran y dylai'r Gwasanaeth Plismona Cenedlaethol sefydlu trefniadau atebolrwydd a llywodraethu tridarn clir o'r cychwyn. Mae hon yn egwyddor ddiwygio allweddol i mi ac aelodau ehangach o Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd. Rwyf hefyd yn cwestiynu'r trefniadau ariannu arfaethedig ar gyfer y Gwasanaeth Plismona Cenedlaethol. Er mwyn cynnal hyder cyhoeddus a thryloywder, mae'n hanfodol bod Cyrff Plismona Lleol, Prif Gwnstablaid a'r Ysgrifennydd Cartref yn rhan o'r trefniadau hyn, a fydd hefyd yn galluogi cydlynu cenedlaethol gwell.

Nid yw tystiolaeth archwilio'n dangos cefnogaeth ar gyfer uno heddluoedd yn llwyr. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod arweinyddiaeth, llywodraethu, gallu gweithlu a modelau gweithredu'n cael llawer mwy o effaith ar berfformiad na maint yr heddlu. Dylai unrhyw ddiwygiad strwythurol gael ei arwain gan dystiolaeth, a pheidio â thanseilio ymatebolrwydd i anghenion y gymuned. Rwy'n cwestiynu cost ariannol diwygio'r heddlu gan mai fy ffocws i yw sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon.

Mae perfformiad plismona da'n cael ei ysgogi gan arweinyddiaeth gadarn a moesegol, goruchwyliaeth leol ac atebolrwydd democrataidd. Mae'n hollbwysig nad yw mwy o oruchwyliaeth gan yr Ysgrifennydd Cartref o berfformiad yr heddlu, gan gynnwys ailgyflwyno targedau cenedlaethol, yn cyfaddawdu annibyniaeth weithredol neu'n annog canlyniadau gwrthnysig. Mae'n rhaid inni sicrhau nad yw systemau'n blaenoriaethu cyrraedd targedau dros ganlyniadau ar gyfer cymunedau a dioddefwyr lleol.

Dylai atal trosedd fod yn flaenoriaeth a rennir, a rhaid i ddiwygiad estyn tu hwnt i blismona. Nid yw'r adroddiad yn cydnabod y cyfleoedd o gwmpas datganoli na'r angen ar gyfer gwaith partneriaeth yn seiliedig ar le i atal trosedd a chefnogi canlyniadau plismona. Er mwyn mynd i'r afael ag achosion craidd trosedd a lleihau galw, mae'n hanfodol bod heddluoedd, awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, addysg, tai a'r sector gwirfoddol yn cydweithio.

Bydd fy nhîm a minnau'n parhau i weithio'n agos â chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir drwy weithgarwch AHGTAEF i wella'r gwasanaeth plismona ar gyfer preswylwyr ardal Dyfed-Powys.